# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 18 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

2 Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

5 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru a darparu manylion holl gostau penodol yr holl ymweliadau Gweinidogol â Stuttgart mewn cysylltiad â'r cyhoeddiad diweddar i gau'r ffatri Bosch yn y De. (WAQ55887)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Cyfarfu'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog ag uwch reolwyr Bosch yn Stuttgart ar 8 Chwefror. Aeth Ysgrifennydd Preifat a swyddog polisi gyda hwy. Cyfanswm y costau oedd:

| **Eitem** | **Cost (£)** |
|---|---|
| Hediadau | 4,141 |
| Gwestai | 1,301 |
| Parcio/Llogi Car | 86 |
| **CYFANSWM** | **5,528** |

Ymwelais â Bosch yn Stuttgart ar 16 Chwefror fel rhan o ddirprwyaeth o Aelodau Cynulliad, a chynrychiolwyr y gweithlu a'r undeb llafur. Euthum i Stuttgart yn rhinwedd fy swydd fel Aelod Cynulliad a thalais fy nghostau fy hun.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am y broses o sefydlu Bwrdd Cysgodol ar gyfer y Coleg Ffederal. (WAQ55888) W

***Rhoddwyd ateb ar 18 Mawrth 2010***

Codais fater y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y Coleg Ffederal pan gefais gyfarfod â CCAUC ar 12 Mawrth. Yn dilyn adroddiad yr Athro Robin Williams ar y model arfaethedig ar gyfer y Coleg Ffederal, bydd fy swyddogion yn trefnu cyfarfod gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gynnar yn y gwanwyn i drafod symud ymlaen gyda'r broses o sefydlu bwrdd interim ar gyfer y Coleg Ffederal.

Yna bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn gweithio gydag Addysg Uwch Cymru (HEW) i ffurfio bwrdd interim i'r Coleg Ffederal. Ffurfir y bwrdd interim drwy ehangu Grŵp presennol Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

Bydd fy swyddogion yn trafod telerau ac amodau cyllid a thargedau gyda CCAUC. Rhagwelir y bydd y Coleg Ffederal yn gwbl weithredol ac yn derbyn y myfyrwyr cyntaf erbyn mis Medi 2011. Rhoddir y dasg o werthuso perfformiad y Coleg Ffederal o ran ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau addysg uwch ar ôl pum mlynedd i CCAUC.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatgelu cyfanswm y costau gweinyddol ar gyfer cyllido Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. (WAQ55880)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Darperir costau gweinyddu neu gostau rhedeg adrannau (sy'n cynnwys cyflogau, hyfforddiant, teithio ac ati) o gyllidebau gweinyddu canolog Llywodraeth y Cynulliad ac o raglen Cymorth Technegol yr UE. Mae'r costau gwirioneddol o flynyddoedd ariannol 2008-2009 hyd heddiw fel a ganlyn:

| **Blwyddyn Ariannol** | **Costau Gwirioneddol o'r Gyllideb Gweinyddu Ganolog (£m)** | **Costau Gwirioneddol o raglen Cymorth Technegol yr UE (£m)** | **Cyfanswm y Costau Gwirioneddol (£m)** |
|---|---|---|---|
| **2008–2009** | 5.3 | 1.1 | 6.4 |
| **2009–2010 (tan ddiwedd Chwefror)** | 4.9 | 1.2 | 6.1 |

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Sawl cais sydd wedi dod i law ar gyfer cyllid cydgyfeirio dros y 3 blynedd diwethaf. (WAQ55881)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

For the Convergence programmes 2007–2013 in Wales, the total number of applications, known as Expression of Interests, that have been submitted for European funding is some 455 to date. These applications have requested Convergence funding of over £2.4 billion.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatgelu cyfanswm y cyllid cydgyfeirio sydd wedi’i dalu bob blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ55882)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Gan fod y proses o gyflawni rhaglenni Cydgyfeirio 2007-2013 ac Amcan 1 2000-2006 yn gorgyffwrdd tua dwy neu dair blynedd, mae lefelau gwariant yr UE yng Ngorllewin Cymru ac ardal y Cymoedd, sy'n seiliedig ar geisiadau am daliad a gyflwynwyd gan noddwyr prosiectau, fel a ganlyn:

| **Blwyddyn Ariannol** | **Cydgyfeirio 2007-2013 (£m)** | **Amcan 1 2000–2006 (£m)** | **Cyfanswm (£m)** |
|---|---|---|---|
| **2007–2008** | 0.0* | 193.1 | 193.1 |
| **2008–2009** | 3.7 | 150.0 | 153.7 |
| **2009–2010 (ar 16 Mawrth)** | 166.1 | 26.7 | 192.8 |
| **Cyfanswm** | **169.8** | **369.8** | **539.6** |

*****Lansiwyd rhaglenni 2007–2013 yn ystod Hydref 2007, gyda'r prosiectau cyntaf yn cael eu cymeradwyo o ddechrau 2008.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Sawl cais sydd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer cyllid cydgyfeirio bob blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ55883)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o brosiectau a gymeradwywyd ar gyfer pob blwyddyn galendr ers 2008 hyd heddiw, am i'r prosiectau cyntaf gael eu cymeradwyo o ddechrau 2008.

| Blwyddyn Galendr | Nifer y Prosiectau a Gymeradwywyd* | Arian yr UE (£m) | Cyfanswm Cost y Prosiectau (£m) |
|---|---|---|---|
| **2008** | 46 | 470.0 | 937.0 |
| **2009** | 66 | 509.0 | 979.0 |
| **2010 (tan ddiwedd Chwefror)** | 13 | 75.0 | 162.1 |

*Gellir gweld manylion prosiectau a gymeradwywyd ar wefan WEFO www.wefo.wales.gov.uk/cy

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Beth yw cyfanswm gwerth pob un cais unigol a ddaeth i law ar gyfer cyllid cydgyfeirio dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ55884)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

For the Convergence programmes 2007–2013 in Wales, the total number of applications, known as Expression of Interests, that have been submitted for European funding is some 455 to date. These applications have requested Convergence funding of over £2.4 billion.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Bentref Drama'r BBC ym Mae Caerdydd. (WAQ55889)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Bydd Pentref Drama'r BBC, a fydd yn cael ei adeiladu gan Igloo Regeneration sy'n gwmni datblygu yn y sector preifat, yn rhan o ddatblygiad ehangach Basn y Rhath a fydd yn darparu miliwn o droedfeddi sgwâr o arwynebedd llawr masnachol newydd, ynghyd â 1,000 o unedau preswyl newydd. Mae'r Pentref Drama yn gam allweddol cyntaf yn y prosiect ehangach a fydd yn rhoi hwb i'r ardal, yn denu buddsoddiadau sylweddol o'r sector preifat, yn creu swyddi newydd o ansawdd uchel, yn darparu Canolfan Cyfryngau Digidol newydd ac yn gwella enw da Cymru fel cartref lle y gall diwydiannau creadigol ffynnu.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlenni sy'n cael eu pennu ar gyfer Pentref Drama'r BBC ym Mae Caerdydd. (WAQ55890)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Bydd rhan y Pentref Drama o Ddatblygiad Basn y Rhath ar gael i'r BBC ddechrau ffilmio Casualty ym mis Awst 2011. Bydd y seilwaith yn cael ei gwblhau ym mis Medi 2011 a'r Ganolfan Cyfryngau Digidol ar ddechrau 2012.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog esbonio'r rhesymeg dros roi cefnogaeth ariannol i Bentref Drama'r BBC ym Mae Caerdydd, a chofio'r angen am adfywio mewn rhannau eraill o Gymru. (WAQ55891)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Mai 2010***

Yn dilyn yr ymateb dros dro a gawsoch ar gyfer WAQ 55891, rwyf bellach yn gallu rhoi ateb i chi.

Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn adfywio yn parhau ledled Cymru. Bydd £10m o arian y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn cael ei fuddsoddi yn y seilwaith ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad sy'n cysylltu safle Basn y Rhath ag ardal Bae Caerdydd o'i gwmpas ac felly'n rhyddhau'r safle er mwyn adeiladu'r Pentref Drama. Wrth i brosiect ehangach Basn y Rhath ddatblygu, disgwylir i'r buddsoddiad o £10m gael ei adennill drwy werthu'r tir i'r datblygwr sector preifat, Igloo Regeneration. Yn ogystal â dechrau ar y safle adfywio mawr olaf hwn ar y Glannau yng Nghaerdydd, disgwylir i'r Pentref Drama fod yn sbardun i fuddsoddiad a thwf sylweddol yn Sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Faint o gleifion sydd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru ar unrhyw system cofnodion gofal cleifion electronig sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru ar gyfer y GIG. (WAQ55876)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Nid yw'r GIG yng Nghymru wedi datblygu system cofnodion gofal cleifion.

Mae'r Cofnod Iechyd Unigol yn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y Tu Allan i Oriau i weld rhywfaint o wybodaeth feddygol yn electronig ar gofnod meddygol y claf a gedwir gan ei feddyg teulu.

Hyd yma mae'r Cofnod ar gael i ychydig dros 500,000 o gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda phractisau yng Ngwent a rhannau o Sir Benfro.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa system cofnodion gofal cleifion electronig sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru ar gyfer y GIG. (WAQ55877)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Nid yw'r GIG yng Nghymru wedi datblygu system cofnodion gofal cleifion. Fodd bynnag, mae'r Cofnod Iechyd Unigol wedi'i ddatblygu yng Nghymru fel y gall rhannau pwysig o gofnod y meddyg teulu, gyda chaniatâd y claf, fod ar gael i'r gwasanaeth lleol y tu allan i oriau sy'n gweithio gyda'r nos ac ar y penwythnos pan fydd practisau meddygon teulu wedi cau. Mae hyn yn gwella diogelwch y tu allan i oriau ac wrth dderbyn cleifion i'r ysbyty.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: Sut y mae unigolyn yn dewis peidio â chael ei gynnwys ar unrhyw system cofnodion gofal cleifion electronig sy'n bodoli yng Nghymru ar gyfer y GIG. (WAQ55878)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Gall cleifion na hoffent gael Cofnod Iechyd Unigol ddewis peidio â chael un drwy roi gwybod i'w meddyg teulu nad ydynt am i'w gwybodaeth iechyd fod ar gael y tu allan i'w meddygfa ar gyfer gofal y tu allan i oriau neu ofal brys. Yna caiff cyfres o godau eu rhoi ar gofnod y claf a fydd yn atal ei wybodaeth rhag cael ei rhannu.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa system sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer triniaeth drawsffiniol o ran cael mynediad at gofnodion gofal cleifion electronig. (WAQ55879)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Mae Cofnod Iechyd Unigol claf mewn practis meddyg teulu penodol ond ar gael yn lleol i staff clinigol y gwasanaeth y Tu Allan i Oriau ar gyfer y practis hwnnw.

Ar ôl i'r Cofnod Iechyd Unigol gael ei gyflwyno ym mhob ardal leol ledled Cymru, caiff trafodaethau ac ymgynghoriadau pellach eu cynnal i bennu sut y caiff y cofnodion hyn eu rhannu, gyda chaniatâd y claf, pe byddai angen i'r claf gael triniaeth yn Lloegr.

Mae rhai prosesau trawsffiniol sefydledig ar waith i gefnogi gofal cleifion o Gymru a gaiff driniaeth mewn ysbytai yn Lloegr, gan gynnwys trosglwyddo canlyniadau profion o rai labordai ysbytai i bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn electronig, ac atgyfeiriadau cleifion electronig i Gaer.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynnydd a wnaed tuag at agor yr Uned Dialysis Arennol yn Ysbyty Llandrindod, a pha bryd y gall cleifion ddisgwyl dechrau cael triniaeth. (WAQ55886)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mawrth 2010***

Mae'r Rhwydwaith Arennol yn bwriadu sefydlu uned pedwar safle mewn ward sydd wedi'i hadnewyddu yn Ysbyty Coffa Llandrindod a fydd yn agor cyn diwedd 2010.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Faint o fusnesau yng Nghymru sydd wedi profi cynnydd yn eu gwerth ardrethol ar gyfer y flwyddyn 2009-10 i 2010-2011 yn y categorïau canlynol: mwy na 100%; mwy na 200%; a mwy na 300%. (WAQ55885)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

Ar sail y wybodaeth yn y rhestrau ardrethi drafft ar gyfer 2010 a luniwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, amcangyfrifwn fod tua 2,570 o safleoedd busnes yng Nghymru wedi profi cynnydd o fwy na 100% yn eu prisiad, bod 450 ohonynt wedi profi cynnydd o fwy na 200% a bod 160 ohonynt wedi profi cynnydd o fwy na 300%.